**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**Public Accounts Committee**

Alun Ffred Jones
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd CF99 1NA

26 September 2014

Annwyl Ffred,

Fel y trafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 16 Medi, rwy'n ysgrifennu yn dilyn llythyr Archwilydd Cyffredinol Cymru atoch dyddiedig 4 Medi ynghylch Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Fel y gellid disgwyl, mae gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ddiddordeb mawr yng ngallu'r yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal astudiaethau Gwerth am Arian yn ôl ei farn a'i flaenoriaethau—gan gynnwys ystyried barn y Pwyllgor. Mae hwn yn fater allweddol i ni, oherwydd i'r Pwyllgor graffu ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac am fod ein rhaglen waith yn cyd-fynd yn agos â chyfres yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau Gwerth am Arian.

Yn naturiol, nid yw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ymwybodol o resymu Llywodraeth Cymru dros beidio â chynnwys dyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol yn y Bil, fel y nodwyd yn y Papur Gwyn. Yn yr un modd, nid ydym yn ymwybodol o'i hasesiad o effaith bosibl y disgwyliadau a nodir ym Memorandwm Esboniadol y Bil ar allu'r Archwilydd Cyffredinol i benderfynu ar ei raglen o astudiaethau Gwerth am Arian.

Byddem yn gobeithio bod y pryderon a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn cael ystyriaeth ddwys eich Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil. Yn ogystal, o ystyried ein diddordeb mawr yn y mater hwn, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi inni'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn a barn eich Pwyllgor yn ystod eich gwaith craffu.

Rwy'n anfon copïau o'r llythyr hwn at Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Gweinidog Adnoddau Naturiol.

Yn gywir,

**Darren Millar AM**
**Chair**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 02920898041
Pwyllgor.CyfrifonCyhoeddus@cymru.gov.uk / PublicAccounts.Committee@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**